

DOLEN Y TAB 116

22 - 23 Gorffennaf 2022

Oedfa Sul 24 Gorffennaf am 10.30

Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth

Ymuno â chynulleidfa eglwys Bethlehem.
Yr oedfa yng ngofal Marc John Williams

YR OEDFAON NESAF

Gorffennaf

31 Y Parchedig Eirian Rees a'r teulu

Awst

7 Ymuno â Bethlehem, Gwaelod y Garth
Oedfa yng ngofal y Parchedig Dafydd Owen

14 Oedfa yng ngofal Edwyn Evans

21 Ymuno â Bethlehem, Gwaelod y Garth
Oedfa yng ngofal Dr Ian Hughes

28 Oedfa yng ngofal Allan James

Hefyd ddydd Sul 24 Gorffennaf

12.00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth yng ngofal Nerys Griffiths, Caernarfon.

12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

E-fwletin Cristnogaeth 21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

BANCAU BWYD

Gyda gwyliau ysgol ar y gorwel, fe fydd hi'n anoddach nag erioed i lawer o deuluoedd ddarparu cinio maethlon, a'r banciau bwyd sydd wedi bod yn diwallu'r angen ers tro. Maen nhw bob amser yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r Tabernacl.

Mae modd dal i gyfrannu'n ariannol drwy sic neu drosglwyddiad banc, neu ddod â bwyd sy'n cadw i'r capel.

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth barhaus.

Y GWEITHGOR
CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

COLLI GARY

Bore Dydd Llun derbyniwyd y newyddion trist fod Gary Samuel wedi ein gadael yn ystod y nos yn dilyn cyfnod byr o salwch. Estynnwn ein cydymdeimlad i Bethan a Rhodri a gweddill y teulu yn eu hiraeth. Gobeithio'n fawr y byddant yn derbyn peth cysur yn eu galar o wybod am y parch mawr at Gary ymhlith gymaint o bobl am ei gyfeillgarwch, ei hynawsedd a'i ddireidi. Bydd bwch ar ei ôl yn yr oedfaon yma yn y Tabernacl ac mewn llawer o gylchoedd diwylliannol lleol.

Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau gwresog i'r Twmiaid a'r Twmiaid Bach am eu cyfraniad i *Ffilmiau Prosiect Denman 2022* yr Undeb ar y thema 'Rheswm i Ddathlu'. Derbyniwyd canmoliaeth uchel gan y beirniaid am greu ffilm oedd yn 'ddifyr a doniol' gan gyflwyno darlun 'clir a bywiog' o'r dathlu fu yn ardal Efail Isaf yn dilyn cyfnod Covid.

Cafodd y sawl a fynychodd Gyfarfodydd Blynnyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar y fraint o'i gwyllo a'i mwynhau. Bellach mae modd i ni i gyd gael mwynhad o weld y ffilm ar wefan yr Undeb - www.annibynwyr.cymru. Diolch i Eleri Mai a phawb arall fu'n cynorthwyo gyda'r holl waith cynllunio, hyfforddi a chyfarwyddo.

Fel arwydd o werthfawrogiad yr Undeb am y cyfraniad a wneir i fywyd y Tabernacl gan ein pobl ifanc a'u harweinydd, derbyniwyd rhodd ariannol i'w defnyddio at waith gyda'r ieuenctid yn Efail Isaf.



Rhannu Cynnyrch yr Ardd Gymunedol



Mae pob croeso i chi alw draw i gasglu rhai o lysiau'r ardd fydd wedi eu gosod mewn bocs ar bwys y Cwtsh Meddylgarwch ar yr amserau canlynol:

Bore Sadwrn 23 Gorffennaf

Bore Iau 28 Gorffennaf

Bore Sul 31 Gorffennaf



DERBYNNIR CYFRANIADAU
AT YR ARDD GYMUNEDOL






O'r Wasg

Her yr Eglwys ôl-Covid

Nid yn annisgwyl yn yr wythnosau sy'n arwain at yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron mae cynhaeaf toreithiog ac amrywiol o lyfrau newydd wedi neu ar fin cael eu cyhoeddi. Os nad yw hynny'n ddigon i'n hysgogi i ddarllen rhagor, dros y pythefnos diwethaf derbyniodd goreuon cynnyrch y wasg yn ystod y llynedd lawer iawn o sylw yn sgil cyhoeddi enillwyr Llyfr y Flwyddyn.



Un cyhoeddiad gwerthfawr nad yw'n debygol o dderbyn llawer o sylw mewn papur newyddion na chylchgrawn yw *Her yr Eglwys ôl-Covid*, sef anerchiad grymus ac amserol y llywydd, y Parchedig Beti-Wyn James, yng nghyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr yng Nghaerfyrddin yn gynharach yn y mis.

Bwriad yr anerchiad oedd ysgogi trafodaeth ymhlith yr eglwysi i ganfod y ffordd ymlaen i'r dyfodol wedi cyfnod mor gythryblus, dryslyd a heriol a gawsom yn ystod blynyddoedd y pandemig. Mae'r fersiwn print wedi ei rannu'n chwe phrif adran wedi eu seilio ar wahanol symbolau o'r groes sef: Croes Cyfeillgarwch / Cyd-ddibyniaeth; Croes Drwy'r Niwl; Croes Cymod; Croes Rhyddid; Croes Goleuni a Chroes Gobaith. Mae pob un o'r croesau hyn yn portreadu'r gwirioneddau a'r heriau y mae gofyn i'r eglwysi eu cofleidio. Gellir defnyddio'r penodau fesul un fel sail i fyfyrdod mewn oedfa.

Yn ei anerchiad mae'n cyffelybu'r sefyllfa ôl-Covid heddiw gyda phrofiad yr Israeliaid y cenir amdano yn Salm 137, '*Ger afonydd Babilon yr oeddem yn wylo wrth i ni gofio am Seion*'. Fel yr Israeliaid rhaid derbyn na ddylem ddyheu am ddychwelyd i'r hen drefn, sef i gymdeithas a reolwyd gan drachwant, hunanoldeb a chreulondeb gyda system oedd yn gofalu am fuddiannau carfan fechan o'r boblogaeth ac anwybyddu argyfyngau dwys y tlodion a'r difreintiedig yn y gymdeithas.

Gosododd her ar bob eglwys i 'gamu ma's o'u cyffordduswydd, o'u cylchoedd cysur, a mentro ar ddulliau newydd ac arloesol o hyrwyddo a chyhoeddi Efengyl Iesu Grist...' a 'mentro i ganol bywyd eu cymdeithas a'u hardaloedd' er mwyn cwrdd ag anghenion eu cymuned. Bydd galw i'r eglwysi fwrw ati i ail-greu ac ail-ddiffinio eu gweledigaeth cyn gweithredu'r weledigaeth honno.

Gellir archebu copi o'r anerchiad trwy gysylltu gyda Tŷ John Penri drwy e-bost undeb@annibynwyr.cymru neu ffonio 01792 795888. Pris y llyfryn yw £5 + cost postio.

Hefyd mae modd gwyllo'r anerchiad ar wefan yr Undeb at www.annibynwyr.cymru

PANED A CHLONC
Dewch am glonc gyfeillgar ac hamddenol

CUPPA AND A CHAT
Come for a friendly and relaxed chat

Bob Dydd Mawrth
Every Tuesday
10.30-12.00

Y Ganolfan
Capel Tabernacl
The Vestry,
Tabernacl Chapel

FFAIR HAF CANOLFAN GARTH OLWG *Am ddim!*

DIGON O ADLONIAINT A HWYL I'R TEULU CYFAN

- Halibahw Miwsig**
Clap a chân
- Gweithdai Canu**
Dawnsio
Drama i blant
Iwos
- Yr Urdd**
Gweithgareddau chwaraeon
- Sesiynau Oedolion**
Gwio
Ipad's
Trefnu blodau
Uwchgyllchu
- Citrus Art**
Sgiliau syrcau
- Matthew Williams**
Diddanwr plant

23-07-22 10-4

CANOLFAN GARTH OLWG CENTRE
GARTHOLMGLLCC
HEOL SANT ILLTUD,
PENTRE'R EGLWYS, CF35 1RQ

01443 570075

Llogi'r Capel neu'r Ganolfan

E-bostiwch
gehpengwern@yahoo.co.uk

Neges Testun
07710 237327

Ffonio
01433 225205

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org

Gofynnir i chi anfon newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk